Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## Ystadegau Medr

# Ansawdd a Methodoleg: Mesurau Monitro Cydraddoldeb Hiliol Addysg Uwch

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | Sta/Medr/16/2025 - **Atodiad A** |
| **Dyddiad:** | 30 Hydref 2025 |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol |
| **E-bost:** | YstadegauAU@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | Gwybodaeth am ansawdd a chynhyrchu cyhoeddiad 'Mesurau Monitro Cydraddoldeb Hiliol Addysg Uwch' |
| **Thema:** | Addysg Uwch |
| **Ffynhonnell:** | Data diwedd cylchred UCAS a chofnodion Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys

Ffynonellau data ... 2
Data diwedd cylchred israddedig UCAS 2024 ... 2
Cofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ... 2
Cofnod Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ... 2
Talgrynnu ... 2
Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd ... 2
Perthnasedd ... 2
Manwl gywirdeb ... 3
Amseroldeb a phrydlondeb ... 3
Hygyrchedd ac eglurder ... 3
Cymaroldeb a chydlyniad ... 3

# Ffynonellau data

## Data diwedd cylchred israddedig UCAS 2024

Yn cynnwys gwybodaeth am ymgeiswyr a cheisiadau i gyrsiau gradd addysg uwch amser llawn drwy UCAS.

Nid Ystadegau Swyddogol yw'r data hyn gan nad yw UCAS yn gynhyrchydd Ystadegau Swyddogol. Fodd bynnag, mae UCAS wedi mabwysiadu'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau yn wirfoddol sy'n helpu i roi sicrwydd bod y data o ansawdd uchel ac yn ddibynadwy.

Ceir rhagor o wybodaeth am y ffynhonnell data hon ar wefan UCAS.

## Cofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Yn cynnwys gwybodaeth am fyfyrwyr sy'n astudio gyda darparwyr addysg uwch ledled y DU, er mai ond data'r rhai sy'n astudio gyda darparwyr yng Nghymru a ddefnyddir yma.

Mae'r ystadegau sy'n seiliedig ar y ffynhonnell data hon yn Ystadegau Swyddogol.

Ceir rhagor o wybodaeth am ffynhonnell y data ar wefan HESA.

## Cofnod Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Yn cynnwys gwybodaeth am staff mewn darparwyr addysg uwch ledled y DU, er mai dim ond data'r rhai sy'n astudio mewn prifysgolion yng Nghymru a ddefnyddir yma. Nid yw staff y Brifysgol Agored wedi'u cynnwys gan fod data'r Brifysgol Agored yn cynnwys staff ledled y DU yn hytrach na Chymru yn unigol.

Mae'r ystadegau sy'n seiliedig ar y ffynhonnell data hon yn Ystadegau Swyddogol.

Ceir rhagor o wybodaeth am ffynhonnell y data ar wefan HESA.

# Talgrynnu

Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Defnyddir ffigurau heb eu talgrynnu i gyfrifo'r cyfansymiau, ac yna talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae'n bosib felly na fyddant yn hafal i swm y cydrannau.

Cyfrifir canrannau drwy ddefnyddio ffigurau heb eu talgrynnu ac wedyn talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf. Gallai hyn olygu na fydd y canrannau yn y datganiad hwn yn cyd-fynd â'r hyn y byddech yn ei gyfrifo o'r ffigurau sydd wedi'u talgrynnu. Os cyfrifir canran lle bo'r enwadur yn llai na 22.5, caiff y ganran ei hatal.

# Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

## Perthnasedd

Cyhoeddwyd y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn gyntaf gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i fodloni cam gweithredu yn nogfen Llywodraeth Cymru, Cynllun

Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Drwy gyhoeddi'r fersiwn ddiweddaraf hon o'r mesurau rydym yn darparu gwybodaeth gyfredol a all gyfrannu at fonitro cynnydd y cynllun hwn.

Mae'r mesurau hefyd yn cyfrannu at fonitro nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a hefyd at ddyletswyddau Medr yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) (2022) a'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

## Manwl gywirdeb

Ar gyfer yr holl ffynonellau data, caiff gwybodaeth am gefndir ethnig ei hunanddatgan. Nid yw'n orfodol i ymgeiswyr, myfyrwyr na staff ddarparu'r wybodaeth hon, felly mae cefndir ethnig peth o'r boblogaeth yn anhysbys, a gallai'r rhai â chefndir ethnig anhysbys fod yn fwy tebygol o fod yn unigolion o gefndiroedd ethnig neilltuol.

Yn achos ymgeiswyr addysg uwch, mae data UCAS yn darparu gwybodaeth am gyfran sylweddol o ymgeiswyr addysg uwch. Fodd bynnag, gellir defnyddio llwybrau eraill i ymgeisio am addysg uwch, felly nid yw data UCAS yn trafod yr holl geisiadau mewn modd cynhwysfawr.

Mae data a gesglir am fyfyrwyr yng nghofnod myfyrwyr HESA yn gynhwysfawr, ond ni chesglir data cefndir ethnig ond ar gyfer myfyrwyr sydd â chyfeiriad parhaol yn y DU wrth gael eu derbyn i'w cwrs. Mae hyn yn golygu bod gwybodaeth wedi'i chyfyngu i'r is-set honno o'r boblogaeth o fyfyrwyr, yn hytrach na'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd.

Mae data ar staff yn cynnwys aelodau staff o bob cenedl, ond nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o'r rhai sydd ar gontract annodweddiadol.

Mae nifer fach o unigolion yn llywodraethwyr ym Mhrifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac wedi cael eu cyfrif ddwywaith o ganlyniad i hynny, gan fod hyn yn gyson â'r dull o gyfrif llywodraethwyr mewn data staff a gyhoeddir gan HESA.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Mae'r data yn y datganiad hwn yn cwmpasu ceisiadau ar gyfer cylchredoedd 2016 i 2024 UCAS, ac ar gyfer blynyddoedd academaidd 2016/17 i 2023/24 ar gyfer data myfyrwyr a staff HESA. Dyma'r data diweddaraf sydd ar gael ar adeg cyhoeddi'r datganiad hwn.

## Hygyrchedd ac eglurder

Ceir rhag-hysbysiad ynghylch y datganiad ystadegol hwn, ac wedyn caiff y datganiad ei gyhoeddi yn yr Adran ystadegau ar wefan Medr.

Cyhoeddir yr adroddiad ar ffurf PDF gyda llyfr gwaith cysylltiedig sydd ar gael mewn fformat data agored (ODS). Mae'r datganiad a'r llyfr gwaith, y naill a'r llall, yn cadw at ganllawiau hygyrchedd.

## Cymaroldeb a chydlyniad

Bu newidiadau i'r categorïau cefndir ethnig y gall myfyrwyr a staff eu datgan yng nghofnodion myfyrwyr a staff HESA o 2022/23. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar y grwpiau ehangach a ddefnyddir yn y datganiad hwn.

Mae data myfyrwyr HESA 2023/24 yn cynnwys chwe darparydd a gyflwynodd ddata i gofnod myfyrwyr HESA am y tro cyntaf. Nid ydynt felly wedi'u cynnwys yn y blynyddoedd cynt. Fodd

bynnag, niferoedd cymharol fach o fyfyrwyr a gyflwynodd y darparwyr hyn, a bach iawn yw eu heffaith wrth gymharu'r ffigurau o flwyddyn i flwyddyn.

www.medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government